

Ymgeisio ar gyfer Astudiaethau Uwchraddedig

Nodiadau Cyfarwyddyd i'ch cynorthwyo wrth lenwi'r ffurflen gais.

1. Eich manylion personol

- Enw – Nodwch eich holl enwau swyddogol fel y maent yn ymddangos ar eich dogfennau swyddogol megis tystysgrifau arholi a phasbort.
- Dyddiad geni – nodwch y dyddiad, y mis a'r flwyddyn (e.e. ar gyfer 29 Medi 1982, ysgrifennwch 29/09/82).
- Cyfeiriad cartref parhaol – rydym yn defnyddio'r cyfeiriad hwn i gysylltu â chi oni bai eich bod yn nodi cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth. Dylai myfyrwyr tramor nodi cyfeiriad parhaol yn eu gwlad enedigol.
- Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth – ein prif gyfeiriad ar gyfer cysylltu â chi. Os ydych wedi dod trwy asiant, rhwng fanylion enw a chyfeiriad yr asiant.

2. Cenedligrwydd a Phreswylfa Barhaol

- Defnyddir yr wybodaeth hon i asesu eich categori ar gyfer ffioedd ac at ddibenion ystadegol. Am wybodaeth bellach ar sut y caiff statws ffioedd ei asesu, ewch i wefan UKCISA: Cyngor y DU ar gyfer Materion Myfyrwyr Rhyngwladol:
www.ukcisa.org.uk
- Gofynion fisa – i gael gwybodaeth a oes angen fisa arnoch i astudio yn y DU, ewch i wefan Asiantaeth Ffiniau'r DU:
www.ukvisas.gov.uk/en/doineedvisa/

3. Astudiaethau arfaethedig yn Aberystwyth

Darllenwch y Prosbectws cyfredol ar gyfer Uwchraddedigion yn ofalus cyn llenwi'r adran hon neu ewch i wefan y brifysgol

www.aber.ac.uk/cy.

- Rhaid ichi nodi teitl llawn y rhaglen a'r cymhwyster arfaethedig fel y maent yn ymddangos yng nghyhoeddiadau swyddogol y Brifysgol.
- Dylai ymgeiswyr nad ydynt yn bwriadu astudio ar gyfer cymhwyster (Myfyrwyr ar Ymweliad) nodi "Myfyriwr ar Ymweliad" fel cymhwyster arfaethedig.
- Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer TAR (hyfforddi athrawon) wneud cais drwy'r GTTR, ac NID i'r brifysgol yn uniongyrchol. Am fwy o wybodaeth, ewch i: **www.gttr.ac.uk**
- Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer Cwrs Ymarfer y Gyfraith wneud cais drwy'r Bwrdd Ceisiadau Canolog (CAB) ac NID i'r brifysgol yn uniongyrchol. Am fwy o wybodaeth, ewch i: **www.lawcabs.ac.uk**

Dulliau Astudio

- Mae Dysgu o Bell yn cyfeirio at raglenni na chaiff eu dysgu ar y campws. I gael rhestr o'r cyrsiau sydd ar gael drwy'r dull hwn, gweler y Prosbectws i Uwchraddedigion neu'r wefan **www.aber.ac.uk/cy/postgrad/postgraduate-courses/distancelearning**.
- Os ydych yn ymgeisio o wlad nad yw'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a bod angen fisa myfyriwr arnoch ar gyfer astudio yn y DU, nodwch fod rheolau mewnfudo yn datgan mai astudio'n amser llawn yn unig y cewch wneud. Am fwy o wybodaeth, ewch i: **www.ukvisa.gov.uk** a **www.ukcisa.org.uk**.

Ymgeiswyr ymchwil

- Rhaid i fyfyrwyr ymchwil arfaethedig ar gyfer pob Adran ac eithrio **Ffiseg, Mathemateg a Chyfrifiadureg** gyflwyno cynnig ymchwil yn rhan o'r cais. Dylai'r cynnig ddeillio o'ch syniad gwreiddiol eich hun. Cadarnhewch fod y cynnig yn berthnasol i arbenigedd academiaidd staff yr Adran (ceir manylion drwy edrych yn y prosbectws ar ac y wefan). Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i gysylltu â'r adran y bwriedir astudio ynddi cyn llunio'r cynnig ymchwil.
- Dylai cynigion ymchwil fod rhwng 1,000 a 1,500 o eiriau o hyd a chynnwys:
 - i. Teitl
 - ii. Y cwestiwn ymchwil allweddol y bwriedir ei drafod
 - iii. Ffynonellau/methodoleg
- Atodwch gopi o'ch cynnig at bob ffurflen gais.
- Dylai ymgeiswyr ar gyfer Cyfrifiadureg nodi yn y lle cyntaf y **maes ymchwil** y mae ganddynt ddiddordeb ynddo.

4. Nawdd, Ysgoloriaethau a Chyllid

Mae'n bwysig fod gennych ddigon o arian i dalu'ch ffioedd dysgu a'ch costau byw yn ystod y cyfnod astudio. Rhwng gymaint o wybodaeth â phosibl ynghylch eich trefniadau ariannol pendant neu arfaethedig. Bydd angen ffi cyfarpar ar gyfer ambell raglen labordy, ar gyfer costau deunyddiau a chyfarpar ychwanegol, a cheir manylion ynghylch y rhain yn y llythyr cynnig.

- Ysgoloriaethau/Cyllid gan Gyngor Ymchwil ar gyfer Cyrsiau Meistr trwy gwrs.

Nodwch y rhain os ydych wedi derbyn un ohonynt neu'n gymwys i wneud cais ar eu cyfer. I gadarnhau a ydych yn gymwys, darllenwch y manylion am Ffioedd a Nawdd Uwchraddedig ar y wefan:

www.aber.ac.uk/cy/postgrad

- i. Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Ryngwladol Aberystwyth ar gyfer Myfyrwyr Meistr Tramor drwy Gwrs
- ii. Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau

iii. Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol – cwota “1+3” neu “+3”. Myfyrwyr y DU a’r UE

iv. Cynllun Cydysgoloriaeth y Gymanwlad: ymgeiswyr o wledydd sy’n datblygu yn y Gymanwlad ar gyfer cyrsiau Meistr yn y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear a’r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Dyddiad Cau: 1af o Fawrth 2011.

- Ysgoloriaethau/nawdd gan Gyngorau Ymchwil ar gyfer Rhaglenni Ymchwil

Nodwch y rhain fel ffynhonnell cyllid os ydych wedi derbyn un ohonynt i chi neu os ydych yn gymwys i wneud cais ar eu cyfer. I gadarnhau a ydych yn gymwys darllenwch y manylion am Ffioedd a Nawdd i Uwchraddedigion ar y wefan:

www.aber.ac.uk/cy/postgrad

i. Ysgoloriaethau Ymchwil Uwchraddedig

Aberystwyth (APRS): Myfyrwyr y DU a’r UE yn unig. Dyddiad Cau: 1af o Fawrth 2011.

Cadarnhewch hefyd ddyddiadau cau cynharach yn yr adrannau. *Noder: Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a’r Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear: 28 Ionawr 2011.*

ii. Ysgoloriaethau Ymchwil Ryngwladol Aberystwyth (AIPRS): myfyrwyr tramor yn unig. Dyddiad cau: 1af o Fawrth 2011. Cadarnhewch hefyd ddyddiadau cau cynharach yn yr adrannau. *Noder: Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a’r Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear: 28 Ionawr 2011.*

iii. Cynllun Gwobrau Doethurol Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a’r Dyniaethau: Myfyrwyr y DU a’r UE yn y pynciau canlynol yn y celfyddydau a’r dyniaethau: Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd; Hanes Cymru; Drama a Chelfyddydau Perfformio. Dyddiad cau: 1af o Fawrth 2011.

iv. Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (Cwota “1+3”; “+3”;): Myfyrwyr y DU a’r UE ym mhynciau’r gwyddorau cymdeithasol yn unig. Dyddiad cau: 1af o Fawrth 2011. *Noder: Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a’r Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear: 28 Ionawr 2011.*

v. Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol: Myfyrwyr y DU a’r UE ym mhynciau’r gwyddorau biolegol yn unig. Cysyllter â’r Adran berthnasol.

vi. Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol: Myfyrwyr y DU a’r UE mewn Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Gwyddorau Biolegol a Ffiseg yn unig. Cysyllter â’r Adran berthnasol.

vii. Cyngor Ymchwil Peirianeg a Gwyddorau Ffisegol: Myfyrwyr y DU a’r UE mewn Cyfrifiadureg, Mathemateg, Ffiseg a Gwyddorau Biolegol yn unig. Cysyllter â’r Adran berthnasol.

viii. Cyngor Adnoddau Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Myfyrwyr y DU a’r UE mewn Ffiseg yn unig.

Cysyllter â’r Adran berthnasol.

- Hunanariannu
 - Mae ariannu eich hun yn golygu mai chi neu’ch teulu sy’n bwriadu talu eich ffioedd i’r Brifysgol yn uniongyrchol.
- Noddwr Preifat
 - Gall noddwr preifat olygu eich cyflogwr neu eglwys leol, er enghraifft.

5. Eich cymwysterau

- Os enillwyd eich cymwysterau y tu allan i’r Deyrnas Unedig, rhwch UNION deitl y cymhwyster fel ag y cyfeirir ato yn y wlad honno. Peidiwch â cheisio ei ddisgrifio yn nhermau system y DU.
- Os yw hynny’n bosibl, amgaewch dystysgrifau/trawsysgrifiadau gwreiddiol neu gopiau a awdurdodwyd gan y corff dyfarnu ar gyfer pob cymhwyster prifysgol a enillwyd gennych. Mae copi awdurdodedig yn golygu llungopi a farciwyd â stamp neu sêl y sefydliad sy’n dyfarnu, ac wedi ei ardystio yn wir gopi o’r gwreiddiol ac wedi ei lofnodi gan swyddog priodol yn y sefydliad hwnnw.

7. Geirdâu

Ni chaiff eich cais ei ystyried gennym hyd oni byddwn yn derbyn eich geirdâu. Rhaid i **chi** sicrhau’r geirdâu gan eich canolwyr, **gan na fyddwn ni yn cysylltu â’r canolwyr ar eich rhan.** Fel arfer, bydd oedi wrth hysbysu ymgeiswyr ynghylch penderfyniadau yn digwydd oherwydd **canolwyr sy’n methu ymateb i geisiadau am wybodaeth.** Enwebwch ganolwyr sy’n gallu ymateb i geisiadau o’r fath.

Sicrhewch fod pob geirda yn cwrdd â’r meini prawf canlynol. Dylai’r geirda:

- Gael ei ysgrifennu ar bapur pennawd. **Caiff geirdâu a anfonir drwy e-bost eu hystyried dim ond os** ydynt yn cael eu hanfon yn uniongyrchol o gyfeiriad e-bost gwaith swyddogol y canolwr. Nid ydym yn derbyn geirdâu o gyfrifon yahoo, gmail na hotmail, er enghraifft.
- Gael ei lofnodi a’i ddyddio gan y canolwr. Yr eithriad i hyn yw geirdâu drwy e-bost sy’n cwrdd â’r meini prawf uchod.
- Gynnwys manylion cyswllt a swydd y canolwr.
- Nodi eich enw, eich cyfeiriad a’r cwrs yr ydych yn gwneud cais ar ei gyfer.
- Nodi ers pa bryd y mae’r canolwr wedi eich adnabod chi a sut.
- Nodi eich cymhwyster, y dyddiad y’i dyfarnwyd, canlyniadau/canlyniadau arfaethedig.

- Drafod eich addasrwydd ar gyfer y cwrs yr ydych yn gwneud cais ar ei gyfer.

Dylai **canolwyr academiaidd** fedru cynnig sylwadau ar eich cefndir academiaidd naill ai yn ystod eich gradd gyntaf neu yn ystod cwrs Meistr.

Ar gyfer **pobl sydd heb radd**, gall eich cyflogwr presennol neu gyn-gyflogwr gyflwyno geirada sydd yn seiliedig ar eich gwaith.

Sawl geirada ddylid ei gyflwyno?

- **Un geirada** ar gyfer ceisiadau i: gyrsiau Meistr ac eithrio'r rheiny a nodir isod.
- **Dau eirada** ar gyfer gwneud cais i:
 - Bob cwrs ymchwil (dylai'r ddau fod yn eirdâu academiaidd);
 - MBA (dylai un geirada fod yn broffesiynol/wedi'i seilio ar waith);
 - Bob cwrs Meistr yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol; a
 - Chyrsiau Meistr mewn Gweinyddu Archifau, Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth a Llywodraethu a Sicrwydd Gwybodaeth (dylai un geirada fod yn eirada proffesiynol/wedi'i seilio ar waith).

10. Anabledd/Cyflwr Meddygol/Gofynion Ychwanegol

Hyd yn oed os cawsoch eich asesu gan y Brifysgol yn y gorffennol, nodwch eich cyflwr ar eich cais uwchraddedig.

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod anghenion o ran cymorth yn cael eu nodi ac er mwyn asesu pa gefnogaeth y gall y Brifysgol ei chynnig. Nid yw'r wybodaeth hon yn rhan o'r broses o ddethol, a chaiff ei thrin yn gyfrinachol. Nodwch y côd sydd fwyaf perthnasol i chi yn y blwch yn Adran 10. Os yw'n briodol, nodwch fanylion unrhyw anghenion penodol neu anghenion cymorth ychwanegol a allai fod gennych.

51 Dyslecsia

52 Awtistiaeth

55 Mae gennych anawsterau iechyd meddwl

56 Defnyddio cadair olwyn / anhawster i symud

57 Byddar / diffyg ar eich clyw

58 Dall/ golwg rhannol

05 Mae angen gofal personol arnoch

07 Mae gennych anabledd na fedrir ei weld, e.e. diabetes, epilepsi, y fogfa,

08 Mae gennych ddau neu fwy o'r anabledau/anghenion arbennig uchod

96 Mae gennych anabledd na restrwyd uchod

11. Collfarniadau Troseddol

Er mwyn amddiffyn ein myfyrwyr a'n staff, disgwylir inni ofyn a oes gennych unrhyw gollfarniadau troseddol perthnasol nad ydynt wedi darfod

Beth yw collfarniad perthnasol?

Mae 'perthnasol' yn golygu: troseddau yn erbyn y person, boed hynny o natur dreisgar neu rywiol; troseddau sy'n cynnwys cyflenwi cyffuriau neu sylweddau a reolir lle mae'r collfarniad yn ymwneud â delio neu fasnachu cyffuriau; troseddau sy'n cynnwys arfau tanio, neu weithredoedd o gynáu tân yn fwriadol neu derfysgaeth.

Beth yw collfarniad sydd wedi'i ddisbyddu?

Nid ystyrir collfarniadau sydd 'wedi'u disbyddu' (yn unol â diffiniad Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974) yn berthnasol. Ond mae ambell raglen, dysgu er enghraifft, wedi ei heithrio rhag y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr a defnyddir rheolau gwahanol wrth drafod collfarniadau troseddol. Mae'n bosibl y bydd y Brifysgol yn gofyn ichi gytuno i wiriad ar gyfer cofnodion troseddol fel amod o'ch cynnig.

Ystyrir bod collfarniadau (ar gyfer troseddau sy'n debyg i'r rhai a nodir uchod) ac a wneir gan lysoedd o'r **tu allan i Brydain Fawr** yn gollfarniadau sydd heb ddarfod. Os yw hyn yn berthnasol i chi, ticiwch y blwch "ie".

Sut y bydd y brifysgol yn trafod fy nghais os byddaf yn datgan fod gennyf gollfarniad troseddol perthnasol?

- Os byddwch yn ticio'r blwch "ie" ni chewch eich eithrio yn awtomatig o'r broses dderbyn.
- Bydd yr wybodaeth ynghylch collfarniadau troseddol yn cael eu hanfon at bobl benodol yn y brifysgol. Yn unol â'r arferion derbyn gorau, byddant yn ystyried eich cais ar wahân i'ch cymwysterau academiaidd. Wrth ystyried eich cais, mae'n bosibl y byddant yn gofyn ichi gyflwyno mwy o wybodaeth ynghylch y collfarniad yn eich erbyn. Os ydynt yn fodlon, bydd eich cais yn cael ei brosesu yn y ffordd arferol er mae'n bosibl y caiff amodau penodol eu cynnwys yn rhan o unrhyw gynnig a wneir. Fel arall, cewch eich hysbysu o'u penderfyniad.
- Gall methu â datgan collfarniad troseddol perthnasol arwain at gael eich diaredel o'r brifysgol.

Bydd yr holl wybodaeth ynghylch collfarniadau troseddol yn cael ei thrin mewn modd sensitif, yn gyfrinachol a'i rheoli yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998.